# Pecyn Dogfennau

Wendy Walters
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD MAWRTH, 15 HYDREF 2019**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN **Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **10.00 YB, DYDD MERCHER, 23AIN HYDREF, 2019** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (Llinell Uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**14 AELOD**

**<u>Y GRŴP PLAID CYMRU – 7 AELOD</u>**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Mansel Charles |
| 2. | Y Cynghorydd | Ann Davies |
| 3. | Y Cynghorydd | Tyssul Evans |
| 4. | Y Cynghorydd | Ken Howell |
| 5. | Y Cynghorydd | Susan Phillips |
| 6. | Y Cynghorydd | Eirwyn Williams |
| 7. | Y Cynghorydd | D.E. Williams [Is-Gadeirydd] |

---

**<u>Y GRŴP LLAFUR – 4 AELOD</u>**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Fozia Akhtar |
| 2. | Y Cynghorydd | Penny Edwards |
| 3. | Y Cynghorydd | Amanda Fox |
| 4. | Y Cynghorydd | Andre McPherson |

**<u>Y GRŴP ANNIBYNNOL – 3 AELOD</u>**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Irfon Jones |
| 2. | Y Cynghorydd | Edward Thomas [Cadeirydd] |
| 3. | Y Cynghorydd | Jim Jones |

***DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA***

# AGENDA


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| **3.** | **ATAL TRWYDDED CERBYD HACNAI HC 917 - CERBYD Â'R RHIF COFRESTRU CP59 KYV** | 5 - 8 |
| **4.** | **MR BENJAMIN JONES - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 9 - 12 |
| **5.** | **MR MATTHEW PEGRAM - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 13 - 16 |
| **6.** | **MR AARON LEE COELHO - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 17 - 20 |
| **7.** | **MR PAUL ANTHONY DAVIES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 21 - 24 |
| **8.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 10FED MEDI 2019** | 25 - 28 |
| **9.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 25AIN MEDI 2019** | 29 - 34 |
| **10.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 12FED MEDI 2019.** | 35 - 40 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 23/10/19

**PWNC A PHWRPAS**
**Atal Trwydded Cerbyd Hacnai HC 917 - cerbyd â'r rhif cofrestru CP59 KYV**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Bod Trwydded Cerbyd Hacnai Mr Rees (HC 917) yn cael ei hatal am 14 diwrnod.**

## RHESYMAU:

**Yn unol ag amodau'r Drwydded Cerbyd Hacnai a bennir gan y Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Jonathan Morgan | Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | 01554 899285 jmorgan@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 23/10/19

**SUBJECT**

**SUSPENSION OF HACKNEY CARRIAGE VEHICLE LICENCE HC 917 REGISTRATION NUMBER CP59 KYV**

**Mr John Keith Rees of Llan Taxi's, 19 Zion Row, Llanelli was found to be operating Hackney Carriage Vehicle HC 917 Registration Number CP59 KYV in breach of the Councils Conditions of Licence for Hackney Carriage Vehicles. These breaches were found on the 4th January 2019, 15th January 2019 and 18th June 2019.**

**The Councils Conditions of Licence state that "If during one or more spot check of the vehicle a total of 3 non-mechanical breaches of condition are identified within an 18 month period, the Authority shall in accordance with Section 60(1) (c) of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 treat the matter as reasonable cause for suspension of the vehicle licence. The suspension will remain in force for a minimum period of 14 days. Vehicles which fail to comply with the conditions after 14 days will not have the suspension lifted until such a time as compliance is achieved".**

**This item was deferred by the Licensing Committee on the 12th September 2019 as Mr Rees was unable to attend.**

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

| |
|---|
| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities** |

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

| |
|---|
| **LEGAL: The legal implication of suspension of the licence is that Mr Rees may lodge an appeal** |

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities** |

| |
|---|
| **1.Local Member(s):**<br>**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**<br>**2.Community / Town Council:**<br>**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**<br>**3.Relevant Partners:**<br>**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**<br>**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**<br>**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | HC 917 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
# 23/10/19

## PWNC A PHWRPAS
## Mr Benjamin Jones
## Cais i adnewyddu trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Caniatáu cais Mr Jones gyda rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## RHESYMAU:

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| **Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol** | **Amherthnasol** |
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |
| **Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| **Y Gyfarwyddiaeth:** | **Swydd:** | **Rhifau Ffôn:** |
|---|---|---|
| **Cymunedau** | | **Cyfeiriadau E-bost:** |
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth** | | |
| **Mr Jonathan Morgan** | **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel** | **01554 899285**<br>**jmorgan@sirgar.gov.uk** |
| **Awdur yr Adroddiad** | | |
| **Justin Power** | **Uwch-swyddog Trwyddedu** | **01267 228932**<br>**JHPower@sirgar.gov.uk** |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 23/10/19

| SUBJECT |
|---|
| **Mr Benjamin Jones** |
| **Application to renew a Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence** |

| |
|---|
| **To consider an application from Mr Benjamin Jones of Flat 4 Ravenhall, Duncan Street, Laugharne to renew his hackney carriage/private hire dual drivers licence.** |

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

|  |  |
|---|---|
| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :** | |
| **Signed: Mr Jonathan Morgan** | **Head of Homes and Safer Communities** |

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

|  |  |
|---|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below** | |
| **Signed: Mr Jonathan Morgan** | **Head of Homes and Safer Communities** |

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD10752 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 23/10/19

**PWNC A PHWRPAS**
**Mr Matthew Pegram**
**Cais i adnewyddu trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Caniatáu cais Mr Pegram gyda rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**RHESYMAU:**

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Jonathan Morgan | Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | 01554 899285 jmorgan@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 23/10/19

| SUBJECT |
| --- |
| **Mr Matthew Pegram** |
| **Application to renew a Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence** |

**To consider an application from Mr Matthew Pegram of 16 Plas Isaf, Llangennech to renew his hackney carriage/private hire dual drivers licence.**

| | |
| --- | --- |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD10755 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 23/10/19

**PWNC A PHWRPAS**
**Mr Aaron Lee Coelho**
**Cais am Drwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Gwrthod** cais **Mr Coelho.**

## RHESYMAU:

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Jonathan Morgan | Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | 01554 899285 jmorgan@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Licensing Committee
## 23/10/19

**SUBJECT**

**Mr Aaron Lee Coelho**

**Application for the Grant of a Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence**

**To consider an application from Mr Aaron Lee Coelho of 4 Heol Gwendraeth, Burry Port for the grant of a hackney carriage/private hire dual drivers licence.**

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

| |
|---|
| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities** |

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

| |
|---|
| **LEGAL: The legal implication of refusal to grant a licence is that Mr Coelho may lodge an appeal.** |

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities** |

| |
|---|
| **1.Local Member(s):**<br>**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**<br>**2.Community / Town Council:**<br>**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**<br>**3.Relevant Partners:**<br>**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**<br>**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**<br>**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.** |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD31006 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 23/10/19

| |
|---|
| **PWNC A PHWRPAS**<br>**Mr Paul Anthony Davies**<br>**Cais am Drwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat** |

| |
|---|
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Gwrthod** cais **Mr Davies.** |
| **RHESYMAU:**<br><br>**Canllawiau'r Cyngor.** |

| | |
|---|---|
| **Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol** | **Amherthnasol** |
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |
| **Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| | | |
|---|---|---|
| **Y Gyfarwyddiaeth:**<br>**Cymunedau** | **Swydd:** | **Rhifau Ffôn:**<br>**Cyfeiriadau E-bost:** |
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth**<br>**Mr Jonathan Morgan** | **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel** | **01554 899285**<br>**jmorgan@sirgar.gov.uk** |
| **Awdur yr Adroddiad**<br>**Justin Power** | **Uwch-swyddog Trwyddedu** | **01267 228932**<br>**JHPower@sirgar.gov.uk** |

# EXECUTIVE SUMMARY
# Licensing Committee
# 23/10/19

| SUBJECT |
|---|
| **Mr Paul Anthony Davies** |
| **Application for the Grant of a Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence** |

**To consider an application from Mr Paul Anthony Davies of 14B Murray Street, Llanelli for the grant of a hackney carriage/private hire dual drivers licence.**

| DETAILED REPORT ATTACHED ? | NO |
|---|---|



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**LEGAL: The legal implication of refusal to grant a licence is that Mr Davies may lodge an appeal.**

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

| **Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**<br>**List of Background Papers used in the preparation of this report:**<br><br>**THESE ARE DETAILED BELOW** | | |
|---|---|---|
| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
| Application Form and File Contents. | DD31005 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

Dydd Mawrth, 10 Medi 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
A.S.J. McPherson a J.E. Williams

**Yn bresennol fel Sylwedydd:**
Cynghorwyr T.J. Jones a S. Phillips

**Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol:**
E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin;
A. Rees, Swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin
K. Smith, Swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin
D. Bizby, Heddlu Dyfed-Powys;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 12.55 yp**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. DEILIAD TRWYDDED BERSONOL - NIGELLUS JUDE VAZ

Cyfeiriodd yr Arweinydd Trwyddedu at yr adroddiad yn gofyn am ddirymu'r Drwydded Bersonol a roddwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod i Mr Nigellus Jude Vaz o The Swan Inn, 16 High Street, Stanwell, Staines-upon Thames a dywedodd fod yr adroddiad yn cael ei dynnu'n ôl ac na fyddai angen i'r pwyllgor ei ystyried y diwrnod hwnnw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod y cais i ddirymu trwydded bersonol Mr Nigellus Jude Vaz yn cael ei dynnu'n ôl.**

## 3. DEILIAD TRWYDDED BERSONOL - RICHARD CRAIG PRYCE BUNFORD

Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried adroddiad yn gofyn am ddirymu'r Drwydded Bersonol a roddwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod ym mis Chwefror 2015 i Mr Richard Craig Pryce Bunford o 30 Parc Cawdor Ffairfach, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin

Cyfeiriodd yr Arweinydd Trwyddedu at yr adroddiad a dywedodd wrth yr Is-bwyllgor, er nad oedd Mr Bunford yn bresennol yn y cyfarfod, roedd wedi cael gwybod y byddai'r Is-bwyllgor Trwyddedu yn ystyried y cais i ddirymu'r drwydded y diwrnod hwnnw ac os na fyddai'n gallu bod yn bresennol, byddai'r cais o bosibl yn cael ei ystyried yn ei absenoldeb. Gan nad oedd Mr Bunford yn bresennol, roedd yr Arweinydd Trwyddedu wedi amlinellu i'r Is-bwyllgor yr amgylchiadau ynglŷn â'r cais i ddirymu'r drwydded.

Cadarnhaodd cynrychiolydd Heddlu Dyfed Powys yr amgylchiadau ynghylch y cais, fel yr amlinellwyd gan yr Arweinydd Trwyddedu.

Yn dilyn hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i roi ei benderfyniad

**PENDERFYNWYD dirymu'r Drwydded Bersonol a roddwyd i Mr Richard Craig Pryce Bunford**

Rhesymau

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Roedd gan Mr Bunford drwydded bersonol ers 2015
2. Cafodd ei ddyfarnu'n euog o guro ym mis Mawrth 2018 a chafodd ddedfryd o garchar wedi'i ohirio.
3. Roedd yn destun Gorchymyn Diogelwch rhag Aflonyddu hyd 2020
4. Nid oedd wedi rhoi gwybod i'r awdurdod trwyddedu am ei gollfarn.
5. Yn dilyn hynny, roedd wedi torri'r Gorchymyn Diogelu rhag Aflonyddwch ym mis Hydref 2018 a chafodd ei ddedfryd ohiriedig ei rhoi ar waith a'i hamrywio i ddedfryd uniongyrchol o 22 wythnos yn y carchar.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Heddlu

Ar ôl ystyried y ffeithiau uchod, a'r sylwadau a gyflwynwyd, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ei fod yn briodol iddo arfer ei ddisgresiwn i ddirymu trwydded bersonol Mr Bunford er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o ran atal troseddau ac anhrefn.

Ar ben hynny roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cam gweithredu hwn yn ymateb cymesur i'r materion a gafodd eu dwyn i'w sylw.

## 4. DEDDF TRWYDDEDU 2003 CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM

(Noder: cyn ystyried yr eitem hon, gohiriwyd yr Is-bwyllgor tan 11.00am er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau technegol o ran dangos y ffilmiau)

Bu'r is-bwyllgor yn ystyried cais a dderbyniwyd gan Mrs Carys Ifan, ar ran Canolfan S4C Yr Egin, yn gofyn am argymhelliad ynglŷn â derbyn plant i weld un ar hugain o ffilmiau byrion di-dosbarth a fyddai'n cael eu dangos fel rhan o'r ŵyl ffilm *Discovery Film Festival's Shorts for Wee Ones* (10 ffilm) a *Discovery Film Festival's Shorts for Middle Ones* (11 ffilm).


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Nododd yr Is-bwyllgor y dylai'r ffilmiau a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio, a roddwyd naill ai gan gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn galluogi' Is-bwyllgor i wneud yr argymelliadau gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilmiau, cafodd gyfle i wylio'r ffilmiau byr gan roi ystyriaeth i'r canllawiau ynghylch y graddau oedran a luniwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**4.1** **bod y 10 ffilm ar gyfer *Discovery Film Festival's Shorts for Wee Ones* yn cael eu dosbarthu gyda gradd 'U'**

**4.2** **bod yr 11 ffilm ar gyfer *Discovery Film Festival's Shorts for Middle Ones* yn cael eu dosbarthu fel a ganlyn:**

**Dosbarthiad U**
***Wishing Box, City, Inclusion Makes the World more Vibrant, Scrambled, Father and Daughter, Outdoors, Rouff, Nouvelle Cuisine, Catastrophe***

**Dosbarthiad PG**
***Language of the Ball, Hybrid***

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mercher, 25 Medi 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.K. Howell a D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol fel Sylwedydd:** Cynghorwr W.T. Evans

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:**
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin
A. Morgan, Ymarferydd Iechyd yr Amglychedd
D. Bizby – Heddlu Dyfed Powys

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 9.30 yb - 1.40 yp**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE LLANELLI WANDERERS RFC, STRADEY PARK AVENUE, LLANELLI SA15 4BT.

Gadawodd yr Is-bwyllgor Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 9.35am ac ailymgynullwyd ar y safle am 10.15am, er mwyn gweld y safle uchod lle cafwyd cyfle i weld y cyfleusterau mewnol ac allanol a lleoliad eiddo'r gwrthwynebwyr. Ar ôl i'r ymweliad â'r safle ddod i ben, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 11.30am i ystyried y cais.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod.

Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Glwb Rygbi Crwydriaid Llanelli am drwydded safle mewn perthynas â'r safle uchod i ganiatáu'r canlynol:-

Cyflenwi Alcohol a Cherddoriaeth a Recordiwyd - o ddydd Mercher i ddydd Sul 12:00 – 23:30,

Oriau Agor: Dydd Mercher - Dydd Sul 12:00-00:00,

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A - copi o'r cais
Atodiad B - sylwadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu
Atodiad C - sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys

Atodiad D - sylwadau a gyflwynwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd
Atodiad E - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Â chytundeb yr holl bartïon, dosbarthwyd copïau o ddogfennau ychwanegol i'r Is-bwyllgor a oedd yn cynnwys newidiadau i'r amodau a gynigiwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn y Cyngor; cynllun yn dangos lleoliad eiddo'r gwrthwynebwyr mewn perthynas â'r safle/eiddo y cyfeiriwyd ato yn y cais, ynghyd ag e-bost gan yr ymgeisydd yn diwygio'r cais drwy eithrio chwarae cerddoriaeth a recordiwyd yn hwyrach na 23:00. Yn ogystal, cafodd yr Is-bwyllgor ohebiaeth ychwanegol gan un o'r gwrthwynebwyr i'r cais arfaethedig, a oedd wedi'i chyflwyno'n flaenorol i'r ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, fel y nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad, ac argymhellodd petai'r Is-bwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais bod yr amodau awgrymedig a gynigiwyd gan Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd (fel y'i diwygiwyd) yn cael eu gosod ar y drwydded.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd at benderfyniad yr ymgeisydd i dynnu elfen o'r cais yn ei hôl mewn perthynas â chwarae cerddoriaeth a recordiwyd tan 23:30. Rhoddodd wybod i'r Is-bwyllgor, yn dilyn newidiadau i'r Ddeddf Trwyddedu a Dadreoli Adloniant Rheoledig, fod hawl awtomatig gan unrhyw safle â thrwydded alcohol i chwarae cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth a recordiwyd rhwng 8:00am a 11:00pm, heb i hynny ymddangos ar y drwydded safle neu heb unrhyw amodau ynghlwm wrth y drwydded honno. Fodd bynnag, petai chwarae cerddoriaeth yn achosi niwsans, roedd y ddeddfwriaeth yn caniatáu cyflwyno cais am adolygiad o'r hawl honno.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys at ei sylwadau, fel y nodwyd yn Atodiad C i'r adroddiad, a gofynnodd am osod y 13 amod awgrymedig a nodwyd ynddo ar y drwydded fel rhai angenrheidiol a chymesur ar gyfer hyrwyddo’r pedwar amcan trwyddedu. Roedd yr ymgeisydd wedi cytuno ar y rheiny.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd at ei sylwadau, fel y nodwyd yn Atodiad D i'r adroddiad, a'r wyth amod diwygiedig canlynol a ddosbarthwyd yn y cyfarfod:-

1. Cyfyngir yfed alcohol i'r safle Trwyddedadwy yn unig;
2. Ni chaniateir yfed alcohol ar ôl 21:00 mewn unrhyw fannau allanol sydd y tu mewn i ffiniau'r safle;
3. Ni chaniateir gwydrau agored na chynwysyddion gwydr mewn unrhyw fannau allanol ar y safle;
4. Dynodir y man gorchuddiedig/cysgodol wrth ymyl prif fynedfa'r adeilad fel y man ysmygu a rhaid i'r holl gwsmeriaid ddefnyddio'r man hwn i ysmygu;
5. Rhaid darparu cynhwysedd addas yn y man ysmygu i gwsmeriaid daflu eu stympiau sigaréts;


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

6. Rhaid cadw'r holl ffenestri a drysau allanol ar gau ar ôl 20:00, ac eithrio mynd i mewn a gadael y safle;
7. Rhaid dangos hysbysiadau cwrteisi amlwg, clir a darllenadwy i gymdogion wrth bob allanfa yn gofyn i'r cyhoedd barchu anghenion preswylwyr lleol ac iddynt adael y safle a'r ardal yn ddistaw;
8. Rhaid defnyddio’r allanfa dân yn yr ystafell ddigwyddiadau ar y llawr cyntaf a grisiau'r ddihangfa dân mewn argyfwng yn unig ac nid ar unrhyw adeg arall.

Dywedodd cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ei fod wedi siarad â'r ymgeisydd ynghylch yr amodau diwygiedig arfaethedig ac y cytunwyd i gynnwys amodau 2-8 ar unrhyw drwydded a allai gael ei rhoi, ond bod amod 1 yn cael ei dynnu'n ei ôl.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynghylch y sylwadau a wnaed.

Rhoddwyd cyfle i'r gwrthwynebwyr roi sylwadau ar y cais, ac ailadroddwyd rhai o'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn eu sylwadau yn Atodiad E ynghyd â'r deunydd ychwanegol a ddosbarthwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- hanes cynllunio'r safle,
- cwyn flaenorol am y niwsans sŵn ym mis Mehefin 2018,
- lleoliad tri safle trwyddedig arall yn y cyffiniau,
- profiad blaenorol o sŵn yn tarfu yn ystod digwyddiadau'r Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro a'r potensial ychwanegol i sŵn gan gwsmeriaid y clwb rygbi darfu ar ôl 11:00pm, a fyddai'n effeithio ar amwynder preswyl a chwsg plant ifanc,
- ystyriwyd bod y cais yn ddiangen a dylai'r clwb barhau i wneud cais am drwyddedau Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn hytrach na thrwydded barhaol.
- pryder y gallai caniatáu trwydded arwain at newid y clwb yn dafarn yn y dyfodol
- agosrwydd y safle at eiddo preswyl a'r ffaith bod y ffenestri ar y llawr cyntaf yn wynebu'n uniongyrchol ystafelloedd wely'r eiddo hwnnw.
- os caniateir y drwydded gan yr Is-bwyllgor, dylid ei chyfyngu i ddydd Gwener a dydd Sadwrn.
- dylai'r gwaith i uwchraddio'r system teledu cylch cyfyng, yn unol â gofynion yr Heddlu, gael ei ymestyn i gynnwys y maes parcio o flaen y clwb.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd, wrth ymateb i'r materion a fynegwyd, er nad oedd y clwb wedi bwriadu gwerthu alcohol i ddechrau, roedd y rhesymau dros gyflwyno'r cais yn cynnwys cael gwared â'r angen i wneud cais am Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro a'r gost sy'n gysylltiedig â hynny, gellid gwneud cais am hyd at 16 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro mewn blwyddyn, i reoli pobl sy'n dod â'u halcohol eu hunain i'r safle yn ystod digwyddiadau'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, i gynyddu refeniw'r clwb ac i ddarparu cyfleusterau i'w noddwyr. Dim ond gwerthu caniau cwrw o'r oergell oedd bwriad y clwb, nid oedd lle yn y clwb i ddarparu bar neu seler i hwyluso gwerthu cwrw casgen. Hefyd, bwriad y clwb oedd gweithio gyda'r gymuned leol i darfu cyn lleied â phosibl ar breswylwyr.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Ar hynny,

**PENDERFYNODD YR IS-BWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais am drwydded safle ar gyfer Clwb Rygbi Crwydriaid Llanelli yn cael ei ganiatáu, wedi'i ddiwygio, a hynny'n unol â'r amodau trwyddedu yr oedd yr ymgeisydd, yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd wedi cytuno arnynt.**

RHESYMAU

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Roedd y clwb wedi'i leoli'n agos iawn at nifer fawr o safleoedd preswyl.
2. Nid oedd y clwb wedi cael trwydded safle o'r blaen.
3. Rhoddwyd 16 o Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro i'r safle mewn perthynas â gwerthu alcohol yn y clwb rhwng Tachwedd 2018 a Medi 2019.
4. Cafodd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd gŵyn ynghylch niwsans sŵn o'r safle ym mis Mehefin 2018.
5. Nid oedd yr ymgeisydd bellach yn ceisio trwydded i ddarparu adloniant rheoledig ar y safle.
6. Roedd cerddoriaeth ac ymddygiad swnllyd gan gwsmeriaid y clwb wedi tarfu ar breswylwyr lleol pan gafodd digwyddiadau eu cynnal yn flaenorol dan Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro.
7. Nid oedd yr un o'r Awdurdodau Cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu trwydded mewn egwyddor.
8. Roedd yr Heddlu wedi cynnig amodau i'w hychwanegu at y drwydded i hyrwyddo atal troseddau ac anhrefn. Roedd yr ymgeisydd wedi derbyn yr amodau hynny.
9. Roedd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd wedi cynnig amodau i'w hychwanegu at y drwydded i hyrwyddo atal niwsans cyhoeddus. Roedd yr ymgeisydd wedi derbyn yr amodau hynny.
10. Roedd y cais am drwydded o ddydd Mercher tan ddydd Sul yn unig.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor bwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol.

Yr oedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

Yn yr un modd, nid oedd materion ynghylch angen, ac a oedd lleoliadau tebyg eraill ar gael yn agos ai peidio, yn ystyriaethau perthnasol o dan y Ddeddf Trwyddedu.

Nododd yr Is-bwyllgor yr anghysondeb posibl rhwng caniatâd cynllunio presennol y safle a'r cais am drwydded. Fodd bynnag, nid oedd yr Awdurdod Cynllunio wedi cynnig unrhyw sylwadau ynghylch hyn ac roedd paragraff 13.5 o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ei gwneud yn glir nad oedd hyn yn rhwystr i ganiatáu trwydded. Cynghorwyd yr ymgeisydd, fodd bynnag, i geisio eglurdeb ynghylch unrhyw faterion cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn defnyddio'r drwydded.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth Mr a Mrs Toft ynghylch effaith niweidiol sŵn o'r safle yn y gorffennol. Derbyniodd y dystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan y preswylwyr eraill ynghylch yr effaith arnynt. Ar y sail honno, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y byddai'r cais, fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol, wedi tanseilio'r amcanion trwyddedu.

Fodd bynnag, roedd yn ofynnol i'r Is-bwyllgor roi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol, yn enwedig yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn yr achos hwn. Roedd y ddau awdurdod cyfrifol hwn o'r farn, yng ngoleuni'r newidiadau a wnaed gan yr ymgeisydd i'r cais, y gellid hyrwyddo’r amcanion trwyddedu yn briodol drwy osod yr amodau trwydded y cytunwyd arnynt gan yr ymgeisydd a'u bod yn ymateb cymesur i'r materion a fynegwyd gan breswylwyr lleol.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried cyfyngu ar oriau trwyddedadwy ddydd Mercher, dydd Iau a dydd Sul i leihau'r effaith ar nosweithiau cyn diwrnodau ysgol, ond teimlwyd na ellid cyfiawnhau hynny yng ngoleuni'r dystiolaeth gan yr awdurdodau cyfrifol.

Felly, roedd yr Is-bwyllgor wedi'i fodloni ei bod yn briodol caniatáu'r drwydded, yn amodol ar yr amodau trwydded a gytunwyd, a bod hyn yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd. Wrth ddod i’r casgliad hwn, nododd yr Is-bwyllgor os byddai defnydd o'r drwydded yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, yn enwedig os oedd yn achosi niwsans cyhoeddus i breswylwyr lleol, gellid adolygu'r drwydded ac, yn y pen draw, roedd gan yr Is-bwyllgor hawl i'w hatal neu ei diddymu.

Anogodd yr Is-bwyllgor y clwb i gydweithio'n agos â'r preswylwyr i fonitro effaith y drwydded ac anogodd breswylwyr lleol, os bydd gweithgareddau trwyddedadwy yn tarfu arnynt, i ymgysylltu â'r awdurdodau cyfrifol fel y gellid cymryd camau priodol.

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Iau, 12 Medi 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, W.T. Evans, J.K. Howell, H.I. Jones, A.S.J. McPherson, J.S. Phillips, E.G. Thomas and J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
P. Booth, Swyddog Trwyddedu
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 yb - 12.10 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Charles, A. Fox, J. Jones a E. Williams.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. MISS KAREN MAY STRATFORD - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Miss Karen May Stratford o 73 Heol Llwchwr, Rhydaman am adnewyddu ei Thrwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Miss Stratford ynghylch ei chais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Miss Stratford yn cael ei ganiatáu a'i bod yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Miss Karen May Stratford i adnewyddu ei Thrwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddi ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.**

## 4. MR KEVIN THOMAS BRIGDEN - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Kevin Thomas Brigden o 14 Pantycelyn, Llanymddyfri am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Brigden ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr. Brigden yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Kevin Thomas Brigden am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 5. MR THOMAS IEUAN MORGAN - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Thomas Ieuan Morgan o 164 Heol Felinfoel, Llanelli am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Morgan ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr. Morgan yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Thomas Ieuan Morgan am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 6. MR GLYNDWR PHILLIPS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Glyndwr Phillips o 50 Heol y Gwyddau, Caerfyrddin am ganiatáu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr. Phillips ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr. Phillips yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Glyndwr Phillips am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 7. MR UMAAR BIN HAMEED - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Hysbyswyd y Pwyllgor fod yr awdurdod wedi rhoi Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat i Mr. Umaar Bin Hameed o Fflat 2, 27 Heol Picton, Caerfyrddin, a bod dau gŵyn wedi dod i law ynghylch ei yrru.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Hameed ynghylch y cwynion a ddaeth i law.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr. Hameed yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD rhoi rhybudd terfynol i Mr Hameed ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Rhesymau</u>
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 8. ATAL TRWYDDED CERBYD HACNAI HC 415 - CERBYD Â'R RHIF COFRESTRU AK60 GWL

Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor fod Mr Anthony John Wathan, o Towy Taxi's, 22 Rhodfa Tywi, Llanymddyfri, wedi bod yn defnyddio Cerbyd Hacnai HC 415 Rhif Cofrestru AK60 GWL yn groes i Amodau Trwyddedu y Cyngor ar gyfer Cerbydau Hacnai.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Wathen ynghylch y mater hwnnw.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog fod Trwydded Cerbyd Hacnai Mr Wathan sef trwydded HC415 yn cael ei hatal am 14 diwrnod.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD bod Mr Anthony John Wathan yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**(NODER: Yn unol â Rheol CPR 16.5, gofynnodd y Cynghorydd K Howells am i'r cofnodion nodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig).**

## 9. ATAL TRWYDDED CERBYD HACNAI HC 917 - CERBYD Â'R RHIF COFRESTRU CP59 KYV

Hysbyswyd y Pwyllgor nad oedd Mr John Keith Rees yn bresennol ac nad oedd wedi cysylltu â'r swyddogion i roi gwybod iddynt ei fwriad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried atal trwydded Mr Rees tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

## 10. IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU)

Derbyniodd y Pwyllgor grynodeb o'r adroddiad gan yr Arweinydd Trwyddedu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 18FED O FEHEFIN 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'B' a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2019, gan eu bod yn gywir.**

## 12. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 26AIN MEHEFIN 2019.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2019, gan eu bod yn gywir.**

## 13. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 20FED AWST, 2019.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'A' a gynhaliwyd ar 20 Awst 2019, gan eu bod yn gywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol